# Camau gweithredu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (yr is-grŵp) | | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Chwefror 2019 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson (Aelod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a chadeirydd)
Bob Vaughan (Rheolwr Ffermio Tir a Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy, Cyfoeth Naturiol Cymru)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru)
Lorna Davis (NFU Cymru)
Dr Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)
Spencer Conlon (Llywodraeth Cymru)
Rob McCall (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Helen Haider (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Matt Lowe (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Sarah Hetherington (Cyfoeth Naturiol Cymru)

**Ymddiheuriadau:**

Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)
Jamie McCoy (AHDB)
James Ruggeri (Hybu Cig Cymru)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Betsan John (Llywodraeth Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Rob McCall (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Geraint Weber (Cyfoeth Naturiol Cymru)

| | |
|---|---|
| **Hefyd yn bresennol drwy telegynadledda** | Brian Pawson (Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>Mark Aitken (Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban) ar gyfer eitem 10 yn unig |

| **Rhif:** | **Eitem** |
|---|---|

## 2. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod ac esboniodd y byddai Mark Aitken (Prif Swyddog Polisi ar gyfer tir Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban) yn ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach ac yn gwneud cyflwyniad ar y gwaith a wnaed yn yr Alban i leihau llygredd amaethyddol.

## 3. Y diweddaraf ar reoliadau amaethyddol

Yn sgil goblygiadau cyfreithiol posibl penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau amaethyddol newydd i gwmpasu rheoli maetholion, dim ond ychydig o drafod a gafwyd dan yr eitem hon.

Cadarnhaodd NFU Cymru fod ganddynt bryderon ynglŷn â chyfreithlondeb y rheoliadau newydd arfaethedig a'u bod yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, cadarnhaodd NFU Cymru eu hymrwymiad i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr, i waith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, ac i gyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr Adroddiad Dros Dro ar Lygredd Amaethyddol. Yn ogystal â hynny, tynnodd Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin sylw at bwysigrwydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn parhau i weithio ar y problemau hyn.

Nododd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant fod eu prif bryder yn ymwneud â chyfnodau pontio. Maent wedi ysgrifennu at Lesley Griffiths i ofyn am gyfnod pontio o leiaf bedair blynedd, a fyddai'n caniatáu i ffermwyr tenant gydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn siomedig â'r penderfyniad i roi'r rheoliadau newydd ar waith ond roeddent yn deall pam y gwnaed hyn.

Yn ddiweddar, cafodd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru e-bost gan gontractwr amaethyddol yn mynegi pryderon ynglŷn ag effaith bosibl y rheoliadau newydd ar fusnesau gwledig. Mae ymateb dros dro wedi cael ei anfon ond roedd angen darparu ymateb mwy manwl. Cyfeiriodd yr e-bost a anfonwyd at fewnflwch Fforwm Rheoli Tir Cymru at gynnig amgen, ond hyd yma ni ddarparwyd manylion pellach ynglŷn â'r hyn y mae'n ei gynnwys.

Mae angen cynnal gwaith pellach ar ddatblygu'r rheoliadau amaethyddol newydd. O ganlyniad, tynnwyd sylw at bwysigrwydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Reoleiddio Fforwm Rheoli Tir Cymru yn parhau i gyfarfod. Mae cofnodion gweithdy blaenorol y grŵp gorchwyl a gorffen,

a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt ar 11 Ionawr, yn parhau ar ffurf ddrafft ac mae angen eu cwblhau.

***Pwynt Gweithredu 1: Darparu ymateb i'r e-bost gan y contractwr amaethyddol a chael copi o'r cynnig amgen y cyfeiriwyd ato (Bob Vaughan / Zoe Henderson a Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 2: Trefnu cyfarfod pellach o Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Reoleiddio Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru / Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 3: Cwblhau a dosbarthu cofnodion cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Reoleiddio a gynhaliwyd ar 11 Ionawr i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru / Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru)***

## 4. Rhaglen Gyflawni Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol

Mae Cyswllt Ffermio yn parhau i weithio ar yr ymgyrch llygredd amaethyddol genedlaethol, gan gynnig clinigau a gwasanaethau cynghori. Cafwyd 250 o fynychwyr mewn digwyddiad glaswelltir a phridd diweddar. Mae astudiaeth achos wrthi'n cael ei datblygu sy'n ymwneud â chyngor ar gynllunio gwaith rheoli maetholion a seilwaith. Bydd yr astudiaeth achos yn cael ei chyhoeddi yn y wasg ac yn cael ei dosbarthu i'r is-grŵp.

Mae naw digwyddiad “ffermio cynaliadwy” wedi'u trefnu a bydd dau ohonynt yn cael eu cynnal yn ddiweddaraf yr wythnos hon yn Aberhonddu ac yn Llanbedr Pont Steffan. Mae chwe sioe deithiol “ffermio ar gyfer y dyfodol” bellach wedi cael eu trefnu a bydd y rhain yn galluogi'r ffermwyr sy'n cymryd rhan i wneud cais am Grant Busnes i Ffermydd. Bydd ffurf y digwyddiadau ffermio cynaliadwy presennol yn dilyn yr un patrwm â digwyddiadau'r rownd flaenorol. Mae'r adborth ar y digwyddiadau hyn wedi bod yn hynod gadarnhaol. Er enghraifft, canfu arolwg yn ystod digwyddiad wedi ei dargedu ar fferm ym mis Tachwedd fod 93% o'r 120 o ffermwyr a gymerodd ran wedi cael defnydd o'r digwyddiad. Hefyd, holwyd y ffermwyr a wnaethant newidiadau i leihau llygredd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd 60% ohonynt eu bod wedi gwneud hyn. Holwyd y ffermwyr a wnaethant leihau'r swm o ddŵr budr ar y fferm a chadarnhaodd 62% eu bod wedi gweithredu ar hyn. Bydd diweddariad llawn ar ganlyniadau'r arolwg yn cael ei gyhoeddi. Bydd hwn yn cynnwys dadansoddiad rhanbarthol.

Cynhaliwyd trafodaeth bellach ar nodi dalgylchoedd newydd y gall Cyswllt Ffermio ddarparu cyngor penodol ychwanegol ynddynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ymgymryd â'r gwaith hwn ac yn creu rhestr o ddalgylchoedd newydd posibl i'w rhannu ag aelodau'r is-grŵp.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi map o ddalgylchoedd sy'n dangos lleoliad y gwaith sydd bellach yn cael ei wneud ledled Cymru gan amrywiaeth eang o sefydliadau fel rhan o leihau llygredd amaethyddol. Bydd y map yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a hefyd ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a ddylid ychwanegu lleoliad yr holl ymgymeriadau gorfodi at y map.

Mae gwaith pellach wrthi'n cael ei wneud gyda Lantra i ddatblygu pecynnau e-ddysgu i gontractwyr. Unwaith i'r tymor wyna ddod i ben, bydd Cyswllt Ffermio'n trefnu'r ddarpariaeth o gyngor un wrth un pellach gydag ymgynghorwyr adeiladu a seilwaith.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â monitro ansawdd dŵr. Nid yw Cyswllt Ffermio'n ymgymryd â'r math hwn o waith monitro, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gwaith o'r fath fel rhan o raglen y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Cadarnhawyd nad yw rhaglen y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cynnwys gwaith monitro ar lefel fferm benodol. Mae NFU Cymru'n cynnal gwaith i sefydlu llinell sylfaen monitro fel rhan o'r prosiect ar ddatblygu dull gwirfoddol o reoli maetholion. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi'r bylchau yn y rhaglenni monitro cyfredol.

Cadarnhaodd Lorna Davis ei bod wedi cyfarfod yn ddiweddar â ffermwyr o fewn dalgylch Cemaes ar Ynys Môn, gan edrych ar lifoedd afonydd, llwythau maetholion o ganlyniad i goredau, a'r effeithiau ar draethau â dyfroedd ymdrochi. Gwnaed cais am gynllun rheoli cynaliadwy i gynnal gwaith samplu diatomau er mwyn canfod a fu gwelliant mewn ansawdd dŵr yn dilyn ymyriadau a wnaed ar ffermydd. Cynhaliwyd gwaith dadansoddi DNA yng Nghemaes, sy'n dangos bod cyfuniad o bobl, gwartheg a chŵn yn cyfrannu at lwythau maetholion. Mae astudiaeth achos ar Fae Cemaes wrthi'n cael ei drafftio a bydd yn cael ei rhannu ag aelodau'r is-grŵp. Bydd prosiect y dull gwirfoddol hefyd yn ystyried cymhwysedd amrywiaeth o fecanweithiau ymyrryd meddalach megis pantiau a Chynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy.

Mae ffynonellau posibl o gyllid ar gael trwy Cyswllt Ffermio i helpu i sefydlu prosesau monitro maetholion ar lefel leol. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r mathau o gyfleoedd sydd bellach ar gael i ddatblygu datrysiadau monitro ymarferol ar ffermydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac NFU Cymru eisoes wedi trefnu gweithdy gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant dŵr i ymchwilio i'r broblem hon. Mae NFU Cymru hefyd yn datblygu arweiniad a thaflenni gwaith ynghylch sefydlu proses fonitro ar ffermydd ac rydym yn gweithio ar gynllun prosiect sy'n disgwyl cymeradwyaeth. Bydd hwn yn cyd-fynd â rhaglen Cyswllt Ffermio a gwaith parhaus gan Afonydd Cymru.

Tynnwyd sylw at y ffaith y gallai mwy o waith monitro ansawdd dŵr arwain at adrodd mwy o achosion o lygredd. Er hynny, mae'r

manteision o ran yr wybodaeth ychwanegol a geir yn sgil gwaith monitro mwy estynedig yn amlwg.

Holodd Sara Jenkins a oedd angen ymgymryd ag unrhyw waith arall ac, os felly, dylai aelodau'r is-grŵp gysylltu â Cyswllt Ffermio. Yna, cafwyd rhagor o drafod ynghylch y diweddaraf ar y cynlluniau rheoli maetholion gan Cyswllt Ffermio ac a fyddai'n well mabwysiadu dull a dargedir yn y dyfodol yn hytrach nag un sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Nodwyd bod gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio ar gael i bob ffermwr ledled Cymru ac nid yw'n gweithredu ar ei lawn gapasiti ar hyn o bryd.

Yna, symudodd y drafodaeth ymlaen at yr angen i newid y lefel bresennol o ddealltwriaeth o ran cyflwr afonydd yng Nghymru. Dim ond ychydig o sylw ar ecoleg pridd a morol sydd yn y cyfryngau. Mae ffilm fer is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn ymdrin â'r broblem hon a'r un yw'r sefyllfa o ran digwyddiadau ffermio cynaliadwy. Bwriad prosiect y dull gwirfoddol yw mynd i'r afael â'r broblem hon hefyd. Mae Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin yn edrych ar fentrau dalgylchoedd lle mae gofyn i ffermwyr weithio ar isafonydd. Mae Afonydd Cymru eisoes yn gwneud gwaith tebyg gyda ffermwyr. Hefyd, tynnwyd sylw at bwysigrwydd deall cymhelliant ffermwr i weithredu / gwneud penderfyniadau penodol sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol.

***Pwynt Gweithredu 4:Darparu diweddariad llawn ynghylch canlyniadau arolwg diweddar Cyswllt Ffermio (Sara Jenkins, Menter a Busnes)***

***Pwynt Gweithredu 5:Dosbarthu hysbysiad Cyswllt Ffermio i'r wasg sy'n sôn am astudiaeth achos y ffermwyr ar gynlluniau rheoli maetholion a seilwaith (Sara Jenkins, Menter a Busnes)***

***Pwynt Gweithredu 6: Cysylltu â Geraint Weber (Cyfoeth Naturiol Cymru) ag awgrymiadau pellach ar unrhyw ddalgylchoedd newydd y dylai Cyswllt Ffermio gynnal gwaith cynghori a dargedir ynddynt (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 7: Lanlwytho map o fentrau dalgylchoedd presennol i wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arsylwi Dyfroedd Cymru (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 8: Ystyried ychwanegu lleoliad yr ymgymeriadau gorfodi perthnasol i'r map o fentrau dalgylchoedd (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 9: Rhannu manylion y gwaith monitro diatomau ag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Dr Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 10: Rhannu'r astudiaeth achos o Fae Cemaes***

***ag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Lorna Davis, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 11: Nodi datrysiadau posibl i gyfleu'r neges i ffermwyr ynghylch effaith arferion ffermio ar ecoleg afonol ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn(Dr Stephen Marsh-Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru / Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)***

## 5. Y diweddaraf ar brosiect ffermydd llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ystod y cyfnod hyd fis Ionawr 2019, cynhaliodd yr wyth swyddog prosiect llaeth 175 o ymweliadau â ffermydd. Mae teclyn ar gyfer cofnodi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau bellach ar waith ac mae modd ei holi ynglŷn â'r ymweliadau hyn. Mae'r cyfrifydd cyfleusterau storio slyri wedi cael ei ddiweddaru ac mae modd ei holi hefyd. Hefyd, mae gan y cyfrifydd system profi sefyllfaoedd i ddarganfod pa wahaniaeth y gall amryw fathau o ymyriadau ei wneud, er nad yw’n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio system seiliedig ar daenlenni i gofnodi canlyniad ymweliadau â ffermydd ac mae'r swyddogion prosiect yn mewnbynnu'r holl ddata ar hon. Bydd gan yr wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn ddylanwad pwysig ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran ffurf y rheoliadau newydd, e.e. hyd y cyfnodau pontio. Bydd diweddariad llawn ar brosiect llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfarfod nesaf o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Ebrill.

Holwyd ynghylch a gaiff tenantiaeth neu berchenogaeth ffermydd eu cofnodi gan y swyddogion prosiect ac a yw'r adroddiadau ar ffermydd bellach yn cael eu hanfon at y ffermwyr. Mae adroddiadau wrthi'n cael eu darparu i'r ffermwyr, er y bu oedi i gychwyn o achos yr ansicrwydd ynghylch gofynion storio slyri yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at yr anawsterau o ran sicrhau bod y cyngor cywir yn cael ei roi i'r ffermwyr pan fydd y rheoliadau'n newid.

Nodwyd bod ffermwyr hefyd yn cael cyngor ynghylch y newidiadau yn y gofynion trwyddedu tynnu dŵr. Mae prosiect y dull gwirfoddol yn edrych ar gostau ymyriadau safonol a'r ffyrdd y gellir cyflwyno'r rhain i ffermwyr.

***Pwynt Gweithredu 12: Diweddaru is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar ganlyniadau prosiect ffermydd llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cyfarfod ym mis Ebrill (Matt Lowe, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 13: Gwirio a yw swyddogion prosiect llaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cofnodi manylion perchenogaeth/tenantiaeth ffermydd (Matt Lowe, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 6. Y diweddaraf ar y dull gwirfoddol ar gyfer rheoli maetholion

Mae NFU Cymru wedi bod yn casglu gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ac yn rhoi cyflwyniadau i amryw fyrddau polisi o fewn Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Mae cynigion ar y gweill ar gyfer dull mwy arloesol o gyfathrebu a bydd model dalgylch ar gael i'w arddangos mewn sioeau amaethyddol. Mae cynnig arall yn cynnwys canfod pa wybodaeth sydd ar gael fel bod modd darparu ffermwyr â'u mapiau eu hunain sy'n dangos ansawdd y dŵr lleol, daeareg leol ac ati. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i ddyrannu i gontractwr a fydd yn cynnal astudiaeth cwmpasu.

Mae prosiect pellach ar y gweill i ganfod a fydd yn bosibl ymgymryd â gwaith monitro dan arweiniad ffermwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae arweiniad ar ansawdd dŵr wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei rannu â'r is-grŵp. Bydd prosiect arall yn edrych ar nodi'r hyn y mae angen i ffermwyr ei wneud i fodloni safonau gwarant fferm. Bydd manylion y gwaith hwn hefyd yn cael eu rhannu â'r is-grŵp.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â sut y caiff llwyddiant ei fesur a pha fathau o dystiolaeth y bydd eu hangen i ddangos bod modd i ffermwyr weithredu'n llwyddiannus o fewn y cyfnodau caeedig. Mae NFU Cymru wedi cyfarfod â staff Puffin Produce i weld sut maent yn gweithredu yn ogystal â chynrychiolwyr y tîm sy'n gweithio ar Brand Cymru. Bydd y cyfarfod cyntaf o grŵp llywio prosiect y dull gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr yn cael ei gynnal yn ddiweddarach ym mis Chwefror.

Mae gwaith pellach ar fapio'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol hefyd yn mynd rhagddo. Bydd NFU Cymru a Chymdeithas y Ffermwyr Tenant yn mynychu cyfarfod ar 13 Chwefror ynghylch hyn.

***Pwynt Gweithredu 14: Dosbarthu manylion pellach cynnig y dull gwirfoddol a ddyluniwyd i nodi sut y gall ffermwyr gyrraedd y safonau gwarant ffermydd (Lorna Davis, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 15: NFU Cymru i ddod â'r cynnig ynghylch datrysiadau monitro ar ffermydd i'r cyfarfod nesaf o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Lorna Davis, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 16: Dosbarthu manylion cynnig y dull gwirfoddol ar yr arweiniad ar ansawdd dŵr i holl aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Lorna Davis, NFU Cymru)***

## 7. Y diweddaraf ar gynllun gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru

Yn ddiweddar, cyfarfu staff Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi arweinydd addas ar gyfer pob un o'r eitemau o fewn y cynllun gweithredu. Ar ôl dosbarthu'r cynllun gweithredu o fewn yr is-grŵp er mwyn rhoi sylw arno, caiff ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, gobeithio erbyn diwedd mis Mawrth. Gan ei bod bron blwyddyn ers cyhoeddi'r Adroddiad Dros Dro ar Lygredd Amaethyddol, mae'n

bosibl y bydd angen nodi eitemau ychwanegol o fewn y cynllun gweithredu. Trafodwyd y dylid galw'r cynllun gweithredu yn adroddiad cynnydd cyn ei gyhoeddi ar y wefan.

Awgrymwyd y dylid cysylltu'r cynllun gweithredu â'r dystiolaeth sydd ar gael a thynnwyd sylw hefyd at y rhwystrau rhag cyflawni camau gweithredu unigol, e.e. y system gynllunio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio i ddatblygu ffordd ymlaen o ran cynllunio ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn datblygu arweiniad ar gynllunio ar eu cyfer. Bydd cynhadledd ynghylch cynllunio yn y sector amaethyddol yn cael ei chynnal yn fuan ac Aled Davis o NFU Cymru fydd un o'r cyflwynwyr. Ymhlith y siaradwyr eraill bydd cynrychiolwyr o adrannau cynllunio awdurdodau lleol a Phrifysgol Caerdydd. Y gynulleidfa darged yw cynghorwyr cymuned a thref yn ogystal â ffermwyr unigol. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oes camgymhariad o ran gallu'r system gynllunio i ystyried effeithiau cyfunol prosiectau a'r effeithiau cronnus a ddaw wrth i sawl datblygiad ddigwydd yn agos at ei gilydd. Bydd diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf o'r is-grŵp.

***Pwynt Gweithredu 17: Dosbarthu drafft diwygiedig o gynllun gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru i aelodau'r is-grŵp (Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 18: Anfon sylwadau ynghylch y cynllun gweithredu diwygiedig ac unrhyw gamau gweithredu ychwanegol at Marc Williams (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 19: Ychwanegu dolenni i'r dystiolaeth bresennol a rhwystrau rhag cyflawni canlyniadau at gynllun gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru (Marc Williams / Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 20: Sicrhau bod trafodaeth ar gynllun gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf o'r is-grŵp (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 21: Anelu at gyhoeddi cynllun gweithredu is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ddelfrydol erbyn diwedd mis Mawrth 2019(Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 22: Adborth i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ynghylch cynllunio'r gynhadledd (NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 23: Siarad â staff cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r rhwystrau rhag cyflawni canlyniadau (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 24: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu***

***diweddariad pellach ynghylch problemau cynllunio yn y cyfarfod nesaf o'r is-grŵp (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 8. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd o'r is-grŵp yn y dyfodol

Mae'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cyfarfod mis Ebrill o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn gwrthdaro â dyddiad Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. O ganlyniad i hyn, bydd angen aildrefnu'r cyfarfod arfaethedig o'r is-grŵp.

Tynnwyd sylw at fantais yr is-grŵp yn mynd ar ymweliadau â safleoedd. Er enghraifft, mae'n bosibl ymweld â Bae Cemaes. Hefyd, cynigiodd Dŵr Cymru drefnu ymweliad â chyfleuster trin dŵr. Yn ogystal â hynny, trafodwyd y posibilrwydd o ymweld â Gwastadeddau Gwent.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar ddadansoddi achosion sylfaenol. Bydd Ian Roderick o Sefydliad Schumacher yn mynychu'r cyfarfod nesaf o'r is-grŵp i wneud cyflwyniad.

Hoffai Cyswllt Ffermio wneud cyflwyniad ar gynlluniau rheoli maetholion a chyngor ar seilwaith mewn cyfarfod o'r is-grŵp yn y dyfodol.

***Pwynt Gweithredu 25: Aildrefnu dyddiad cyfarfod mis Ebrill o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 26: Pennu'r posibilrwydd i Fforwm Rheoli Tir Cymru ymweld â Bae Cemaes / canolfan trin dŵr Dŵr Cymru / Gwastadeddau Gwent (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 27: Anfon unrhyw syniadau pellach ar gyfer ymweliadau â safleoedd gan is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru at Helen Haider (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 28: Sicrhau y caiff cyfnod o ddwy awr ei ychwanegu at agenda'r is-grŵp ym mis Mawrth fel bod gan Ian Roderick ddigon o amser i wneud cyflwyniad (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 29: Sicrhau y caiff digon o amser ei ychwanegu at agenda cyfarfod mis Mawrth o is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar gyfer cyflwyniad Cyswllt Ffermio ar gynlluniau rheoli maetholion a chyngor ar seilwaith (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 9. Cofnodion o gyfarfod is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 14 Ionawr a phwyntiau gweithredu sydd heb eu cyflawni

Yn ystod y cyfarfod o'r is-grŵp ym mis Ionawr, nodwyd bod Ymddiriedolaeth Afonydd De-orllewin Lloegr yn awyddus i wneud cyflwyniad i'r is-grŵp. Awgrymwyd y gallai fod yn briodol i gynrychiolydd o ymddiriedolaeth afonydd yng Nghymru fynychu cyfarfod o'r is-grŵp yn

y dyfodol. Mae Pwynt Gweithredu 8 yng nghofnodion y cyfarfod ar 14 Ionawr bellach wedi'i ddiwygio. Bydd Stephen Marsh-Smith yn mynd ati nawr i ymchwilio i allu cynrychiolydd o ymddiriedolaeth afonydd yng Nghymru i fynychu cyfarfod o'r is-grŵp yn y dyfodol.

Mae'r pwyntiau gweithredu canlynol o 14 Ionawr yn parhau i fod heb eu cyflawni:

***Pwynt Gweithredu 1: Dosbarthu'r nodyn presennol ar gynllunio gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru (Brian Pawson).***

***Pwynt Gweithredu 3: Canfod meysydd o waith a fyddai'n elwa ar gyllid dan gynllun y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy mewn cyfarfod yn y dyfodol (Helen Haider / Marc Williams).***

***Pwynt Gweithredu 6: Darparu cylch gorchwyl drafft i gwmpasu gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Reoleiddio yn y dyfodol, yn enwedig (i) cynghori ar broblemau cyfathrebu ynghylch y rheoliadau newydd, gan gynnwys cyfnodau pontio, (ii) darparu cyngor pellach o ran ymgynghoriad Llywodraeth Cymru sydd ar ddod ar y llawr rheoliadol ehangach (Andrew Chambers).***

***Pwynt Gweithredu 9: Bydd Afonydd Cymru yn darparu enghraifft o adroddiad asesu fferm a'i ddosbarthu i'r is-grŵp.***

***Pwynt Gweithredu 10: Darganfod a oes unrhyw gydberthyniad yn y data ar achosion y gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol (Marc Williams).*** Mae angen gwaith pellach i ganfod a oes unrhyw gydberthyniadau. Mae angen diweddaru'r data ar achosion i gynnwys 2018 yn ei chyfanrwydd.

***Pwynt Gweithredu 16:*** Ymchwilio i'r rheswm pam nad yw rhai ffermwyr wedi cael gwybod eto am ganlyniad cam datganiad o ddiddordeb rownd ddiweddaraf y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (Andrew Chambers).

***Pwynt Gweithredu 18: Canfod ail gyfran o ddalgylchoedd lle gall Cyswllt Ffermio ymgymryd â rhagor o waith wedi'i dargedu yn 2019 – yn ddelfrydol, erbyn dechrau mis Chwefror(Geraint Weber, Cyfoeth Naturiol Cymru).*** Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo a chaiff ei drafod yn y cyfarfod nesaf o'r is-grŵp.

***Pwynt Gweithredu 21: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn canfod siaradwr i roi'r diweddaraf ar effaith dosbarthiadau Parthau Perygl Nitradau ar ansawdd d***ŵr yng Nghymru (Brian Pawson / Geraint Weber, Cyfoeth Naturiol Cymru).

## 10. Mark Aitken (Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban) – Lleihau llygredd amaethyddol yn yr Alban

Rhoddodd Mark Aitken gyflwyniad ar sut mae Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) wedi gweithio gyda ffermwyr i wella ansawdd dŵr yn yr Alban. Ymhlith y problemau allweddol mae glawiad trwm, ardaloedd mawr o ddŵr mewndirol, a'r ffaith nad yw traean o'r 960 o gyrff dŵr yn cyrraedd statws ecolegol da. Mae gan yr Alban arfordirol fwy o ffermio âr yn ogystal â nifer fawr o gyrff dŵr sy'n methu. Canolbwynt arall gwaith SEPA oedd ffermio llaeth.

Mae gan yr Alban reolau rhwymol cyffredinol sy'n seiliedig ar arferion amaethyddol da sy'n bodoli eisoes. Cynhaliodd SEPA ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r rheolau rhwymol cyffredinol dros gyfnod o saith i wyth mlynedd. Mae SEPA hefyd wedi gweithio gydag NFU yr Alban a'r colegau amaethyddol i sefydlu 'Farming & Water Scotland', a aeth ati i fynychu oddeutu 600 o ddigwyddiadau. Cynhyrchwyd cyhoeddiadau a oedd yn hawdd i'r ffermwyr eu defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys sticeri i'w gosod ar dractorau.

Mae SEPA yn cyflogi staff o gefndiroedd ffermio a hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol i'r staff. Ymhlith lleoliadau'r hyfforddiant mae ffermydd sy'n perthyn i aelodau o NFU yr Alban.

Nododd SEPA 14 o ddalgylchoedd blaenoriaeth ar sail dyfroedd ymdrochi, dalgylchoedd dŵr yfed ac ati, er mwyn blaenoriaethu'r lleoedd hynny lle mae llygredd yn achosi'r perygl mwyaf i iechyd dynol. O fewn y dalgylchoedd hyn, canfuant oddeutu 4,000 o achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheolau rhwymol cyffredinol ar y ffermydd. Canfuwyd y rhain ar hyd 5,838 km o afonydd. Am bob 1 km o afon y cerddir ar ei hyd, canfuwyd problem diffyg cydymffurfio.  Mae dros 3,000 o ymweliadau cychwynnol â ffermydd bellach wedi eu cynnal. Ymhlith y problemau cyffredin a ganfuwyd wrth grwydro trwy'r dalgylchoedd roedd porthwyr cylch ger cyrsiau dŵr a gwartheg yn cael mynediad i welyau nentydd.

Mae rheoli pridd yn yr Alban hefyd yn broblem gan fod erydu ac aredig i lawr y llethr yn achosi problemau penodol.  Mae SEPA wrthi'n gweithio gyda ffermwyr i wella gwaith rheoli pridd.

Mae'r rhaglen gyngor un wrth un yn cynnwys ymweliad llawn â'r iard a'r maes.  Yna, anfonir llythyr at y ffermwyr ar ôl yr ymweliad, a fydd yn cynnwys map â chyngor ar liniaru. Mae ail ymweliad dilynol yn cael ei drefnu hefyd. Ni fydd unrhyw ffermwr yn cael ei erlyn ar y cam hwn. Mae ymweliadau cychwynnol â ffermydd wedi nodi pryderon mawr o ran sathru, rheoli slyri a thail, gwahanu dŵr glân a budr, a thrin plaladdwyr.

Mae un fil o ymweliadau dilynol wedi'u cynnal bellach. Canfuwyd bod tua 45% o'r ffermydd yn cydymffurfio, bod 41% yn gweithio tuag at gydymffurfio, ac nad oedd 14% o'r ffermwyr wedi dechrau unrhyw waith eto.  Canfu cyfres bellach o ymweliadau â 172 o ffermwyr nad oedd yn cydymffurfio / ffermwyr a oedd yn gweithio tuag at gydymffurfio fod 23%

yn cydymffurfio, bod 14% yn cymryd camau, ac nad oedd 34% wedi gwneud dim cynnydd pellach. Ystyrir erlyniadau pan na fydd camau gweithredu digonol wedi'u cymryd ar ôl tri ymweliad.

Mae gan y ffermwyr mewn dalgylchoedd blaenoriaeth well cyfle o gael grantiau ond nid ydynt yn cael mwy o arian nag eraill. Mae'r ffermwyr hynny mewn dalgylchoedd blaenoriaeth sy'n gwneud cais am grantiau yn llwyddo bob tro i gael cyllid. Hefyd, mae Dŵr yr Alban wedi bod yn rhoi grantiau 100% i'r holl ffermwyr yn eu dalgylchoedd blaenoriaeth.

Hyd yma, ymwelwyd ag oddeutu 5,000 o ffermydd o'r tua 18,000 o ffermydd sy'n cael y taliad sylfaenol i ffermwyr. Mae oddeutu 3,000 o grofftwyr yn yr Alban, felly amcangyfrifir bod SEPA wedi ymweld â thua thraean o'r ffermwyr.

Mae'r rhaglen codi ymwybyddiaeth genedlaethol wedi cynyddu lefel y cydymffurfio yn ystod yr asesiad o'r ymweliad cyntaf o 35% i 55%. Rhan fwyaf llwyddiannus yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth trwy wasg y ffermwyr yn ogystal â hyrwyddo straeon o lwyddiant ac astudiaethau achos.

Nid yw SEPA yn ymwybodol o unrhyw broblemau o ran ffermwyr tenant yn cael eu gwrthod caniatâd gan eu landlordiaid i osod storfeydd slyri. Mae problemau tenantiaeth wedi bod gymaint yn fwy o ffactor o ran creu coetiroedd.

Mae'r broses o fonitro ansawdd dŵr o fewn SEPA yn debyg i broses Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae SEPA yn mesur gwaelodlin ledled yr Alban ac mae rhai Parthau Perygl Nitradau wedi cael eu dynodiad wedi'i dynnu o ganlyniad.

Yn dilyn diwedd y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth bellach ynghylch yr angen am gynllun tymor hwy i gyflawni gwelliannau ar ffermydd yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar ymweld â phob fferm laeth ledled Cymru. Yn enwedig, nid oes darpariaeth yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer cynnal ymweliadau dilynol.

***Pwynt Gweithredu 30: Cael dadansoddiad o ymweliadau cynghori Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban sy'n cynnwys maint gyrroedd, arwynebedd mewn hectarau, incwm fesul pen ac ati (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 31: Aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru i e-bostio Helen Haider ag unrhyw gwestiynau pellach i'w holi i Mark Aitken (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 32: Dosbarthu copi o gyflwyniad Mark Aitken (Helen Haider / Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 11. Blaenoriaethau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar gyfer 2019

Unwaith i gynllun gweithredu'r is-grŵp gael ei gwblhau, bydd angen gwneud gwaith pellach er mwyn nodi'r prif feysydd gwaith i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Atgoffodd CFF y grŵp am y gwaith sydd ar y gweill ar ficroblastigion mewn afonydd. Gallai'r is-grŵp lenwi unrhyw fylchau yn y gwaith hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn pwysleisio problem plastigion ffermydd a'r defnydd o orchuddion ffermydd ac ailgylchu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithio'n fewnol i ddatblygu negeseuon allweddol a fydd yn cael eu rhannu. Mae'r Alban dim ond newydd roi'r gorau i losgi gwastraff ffermydd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chwmni yng Nghastell-nedd sy'n ailgylchu plastigion ffermydd i greu cynhyrchion megis meinciau, leinin gwrth-leithder ac ati. Dywedwyd na ddylai'r broblem plastigion fod yn brif flaenoriaeth, er y dylai'r is-grŵp gadw llygad arni, gan y dylai'r canolbwynt fod ar lygredd dŵr o amaethyddiaeth.

Mae prosiect is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru sy'n canolbwyntio ar gapasiti maetholion banc tir Cymru bellach yn cael ei gyllido trwy waith Llywodraeth Cymru ar 'Brexit a'n Tir'.

Hefyd, nododd aelodau'r is-grŵp arloesedd fel ffrwd waith y gwaith y roeddent yn dymuno ei weld yn cael ei ddatblygu. Trafodwyd y posibilrwydd o drefnu gweithdy gydag Innov8.

***Pwynt Gweithredu 33: Nodi blaenoriaethau / meysydd gwaith allweddol yr is-grŵp ar gyfer 2019 (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 34: NFU Cymru i roi manylion y cyfarfod ar blastigion yn Stonely i Sarah Hetherington (Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 35: Cysylltu ag Innov8 i drafod y syniad o gynnal gweithdy gydag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Bob Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 36: Dosbarthu negeseuon allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran plastigion ffermydd (Sarah Hetherington, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

***Pwynt Gweithredu 37: Dosbarthu manylion BPI Plastic Recycling i aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (Helen Haider, Cyfoeth Naturiol Cymru)***

## 12. Y diweddaraf ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Yn fuan, bydd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn cyfarfod â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Awgrymodd aelodau'r is-grŵp y dylid hyrwyddo gwaith y grŵp ynghyd â'r neges ein bod gerllaw i roi cymorth i'r Gweinidog.

***Pwynt Gweithredu 38: Anfon unrhyw negeseuon pellach at Dennis Matheson ar gyfer cyfarfod Cymdeithas y Ffermwyr Tenant â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (Pawb)***

Bydd Zoe Henderson yn mynychu cynhadledd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar 19 a 20 Mai.

Bydd Steven Bradley yn mynychu digwyddiad Cymru gyfan ar laswelltir ar 6 Mehefin.

Mae'r Tywysog Siarl wedi dweud yr hoffai drafod y broblem llygredd amaethyddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill. Awgrymwyd 25 Chwefror fel un posibilrwydd.

## 13. Unrhyw fater arall

Bydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu rhaglen gwaredu'r clafr yn arwain at fwy o ddip defaid yng Nghymru. Mae nifer y ffermwyr sy'n dymuno mynychu cyrsiau ar ddip defaid wedi cynyddu.

Mae Lloegr wedi cyflwyno ymgynghoriad sy'n debyg i ymgynghoriad 'Gweithio gyda'n gilydd' Cyfoeth Naturiol Cymru (ymarfer statudol sy'n arwain at gyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon diwygiedig a diweddaredig). Mae grŵp tebyg i Fforwm Rheoli Dŵr Cymru wedi cael ei ffurfio ac mae gweithgor seiliedig ar amaethyddiaeth a thir hefyd.

O ran cyhoeddi disgwyliedig map mentrau'r dalgylchoedd, awgrymwyd y gallai'r is-grŵp drefnu cynhadledd neu weithdy sy'n ymwneud â'r holl waith sy'n tanategu hyn.

***Pwynt Gweithredu 39: Rhoi gwybod i Sarah Hetherington am unrhyw broblemau ffermwyr o ran dip defaid (Pawb)***

***Pwynt Gweithredu 40: Trafod y posibilrwydd o gynnal cynhadledd/gweithdy (ar sail map mentrau'r dalgylchoedd) mewn cyfarfod o'r is-grŵp yn y dyfodol (Helen Haider / Marc Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru)***